**ARCHWILIO MEWNOL**

**STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 20012/2015**
**A CHYNLLUN CYFNODOL 2012/2013**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# DRAFFT

**Adroddiad Drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio: 24 Mai 2012**

## 1 Cynllun Strategol Archwilio Mewnol 2012/2015

Cafodd y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol am y cyfnod 2010/11 i 2012/13 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2010. Caiff diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol eu cyflwyno'n flynyddol i'r Pwyllgor.

Gan mai 2012/13 yw blwyddyn olaf y Cynllun Strategol cyfredol, mae'r ddogfen hon yn darparu Cynllun Strategol am y tair blynedd nesaf hyd at 31 Mawrth 2015.

Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn ddogfen fyw a rhaid ei diwygio'n gyson wrth i ni ddatblygu systemau newydd, wrth i'r hen systemau newid yn sylweddol, wrth i'r ddeddfwriaeth newid, wrth i'r amcanion newid ac ar adeg nodi risgiau newydd. Hefyd mae adnoddau yn cael effaith ar y dadansoddiad bob amser.

Os oes llai o adnoddau na'r disgwyl ar gael, bydd hynny'n golygu y bydd rhaid blaenoriaethu ymhellach a gostwng nifer yr adolygiadau neu gwmpas pob archwiliad unigol. Gyda mwy o adnoddau, bydd modd adolygu mwy o feysydd neu roi mwy o sylw i archwiliadau unigol a gynlluniwyd.

## 2 Methodoleg Asesu Anghenion Archwilio

Y mae'n dull ni o archwilio yn un sy'n seiliedig ar risg . Er mwyn adnabod y meysydd sydd angen archwiliad mewnol, mae'n rhaid i ni ddeall risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Yr ydym wedi cynnal yr asesiad anghenion am 2012/13 i 2014/15 gan ddefnyddio'r broses ganlynol:

- Adolygwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor gan roi sylw penodol i risgiau sydd wedi eu categoreiddio fel rhai risg uchel i'r Cyngor;
- Cadarnhau amcanion craidd y sefydliad a'r risgiau allweddol penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion hynny trwy drafodaeth gyda rheolwyr y Cyngor.
- Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd ynglŷn â'r sefydliad o waith archwilio mewnol blaenorol er mwyn dynodi meysydd a fyddai'n cael budd o archwiliad mewnol.
- Yr oedd yr Asesiad Anghenion Archwilio hefyd yn nodi meysydd nad ydynt yn ymddangos fel risgiau blaenoriaeth uchel ond lle gall archwilio mewnol wneud cyfraniad pwysig tuag at sicrwydd, er enghraifft:
    - Gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol;
    - Gwaith sydd ei angen er mwyn i'r archwiliwr allanol fedru dibynnu ar waith archwilio mewnol ynglŷn â systemau cyllidol craidd yn unol â'r cysyniad o archwilio wedi'i reoli;
    - Meysydd o bryder sy'n cael eu nodi gan reolwyr neu'r Pwyllgor Archwilio;
    - Materion sy'n dechrau amlygu eu hunain; a'r
    - Angen am sicrwydd parhaus ynglŷn ag agweddau allweddol ar reolaeth fewnol.

Roedd dogfennau eraill y trowyd atynt wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cynnwys, ond nid oeddynt wedi'u cyfyngu i: Datganiad Llywodraethu Corfforaethol CSYM ar gyfer 2010-11; Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformioad Ebrill 2011 – Mawrth 2012 – Adroddiad

Diweddaru – Chwefror 2012; Archwiliad PWC o Ddatganiadau Cyfrifo; Amlinelliad Archwilio Ariannol PWC; Cofrestr Risg Gorfforaethol, Cynllun Busnes Corfforaethol Drafft 2012/15; Blaenoriaethau Strategol CSYM ac ymgynghori gyda'r Archwilwyr Allanol a Sgriwtini ar eu cynlluniau gwaith am 2012/13.

Hon yw'r flwyddyn gyntaf y bu Cofrestr Risg Gorfforaethol ar gael i nodi'r meysydd sy'n peri risg uchaf i'r Cyngor a'r meysydd y mae angen y mwyaf o sicrwydd yn eu cylch felly i sicrhau bod y Cyngor yn rheoli'r risgiau hyn yn ddigonol.

Y dull yr ydym yn ei ffafrio o ran rhoi sylw i risgiau yw defnyddio Cofrestr Risg y Cyngor i yrru Cynlluniau Strategol a Gweithredol yr Adain Archwilio Mewnol gan ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i ddarparu sicrwydd ar gyfer y risgiau mwyaf i'r Cyngor lle mae modd gwneud hynny a lle mae'n briodol. Adroddir wedyn ar sicrwydd yn erbyn risgiau sy'n gyfarwydd i'r Rheolwyr ac aelodau'r Cyngor trwy adolygiad o Gofrestrau Risgiau Corfforaethol a Risgiau Gwasanaeth.

## 3 Cynllun Gwaith Blynyddol – Archwilio Mewnol

I bob blwyddyn o'r Strategaeth Archwilio Mewnol, paratoir Cynllun Gweithredu a hwnnw sy'n rhoddi i'r Adain Archwilio Mewnol ei rhaglen waith am y flwyddyn. Mae'r Asesiad Anghenion Archwilio yn cael ei adolygu a gofynnir i'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth nodi pob risg na chafodd sylw'n barod. Defnyddir yr Asesiad Anghenion Archwilio diwygiedig i sianelu'r adnoddau archwilio mewnol yn uniongyrchol i'r rhannau hynny o'r sefydliad sydd, yn dilyn gwaith asesu, yn peri'r risg fwyaf yng nghyswllt cyflawni amcanion.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Gwaith Mewnol 2012-13, rydym wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ac wedi cysylltu gyda Chyfarwyddwyr Corfforaethol eraill a hefyd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod eu hanghenion. Ymgynghorwyd gyda'r Archwiliwr Allanol a'r Rheolydd Sgriwtini yng nghyswllt Cynllun Gweithredu arfaethedig 2012-13.

Mae'r Cynllun Gweithredu arfaethedig ar gyfer Archwilio Mewnol, fel y gwelir ef yn Atodiad A, yn adlewyrchu canlyniadau arolwg eleni o'r Asesiad Anghenion Archwilio ac yn adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2012-13.

## 4 Adnoddau

Mae cyllideb yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13 yn seiliedig ar adnoddau staffio llawn yn y Tîm Archwilio mewnol. Mae'r swydd Archwilydd Mewnol a oedd yn wag yn 2011/12 bellach wedi ei llenwi yn Ebrill 2012.

Adolygwyd nifer y dyddiau archwilio rhaglenedig i roi targed heriol i'r Adain yn 2012/13 ac mae'n cynrychioli cynllun wedi'i flaenoriaethu i wasanaethu'r holl adrannau ac mae hyn yn cynnwys unrhyw feysydd risg newydd neu feysydd sy'n peri mwy o risg yn codi o 2012-13.

## 5 Cynlluniau Blynyddol a Strategol

Rydym wedi paratoi Cynllun Archwilio Mewnol strategol ar gyfer 2012/13 i 2014/15 sy'n cynnwys y Cynllun Gweithredu Mewnol ar gyfer 2012/13 i'w ystyried gan uwch reolwyr ac aelodau a hynny'n unol â Chôd Ymarfer Archwilio CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol (gweler Atodiad A os gwelwch yn dda). Mae'r Cynllun Strategol Archwilio

Mewnol ar gyfer y tair blynedd nesaf i'w weld yn Atodiad C a manylir ar y materion yn ymwneud ag adnoddau yn Atodiad B.

## 6 Materion i'r Pwyllgor Archwilio eu hystyried

- A yw'r cynllun archwilio mewnol strategol 2012/13 i 2014/15 yn adlewyrchu'r meysydd y mae'r Pwyllgor Archwilio yn credu y dylid rhoi sylw iddynt yn y cyfnod?
- A yw'r Cynllun Archwilio Mewnol manwl 2012/13 a baratowyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn rhoi sylw i'r meysydd hynny y mae'r Pwyllgor Archwilio o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt?
- A ydyw lefel yr adnoddau archwilio yn dderbyniol i'r Pwyllgor ac yn briodol ganddo yn wyneb lefel y sicrwydd y gofynnir amdani?

**Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio**
**Ebrill 2012**

**ATODIAD A**

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL CYFNODOL - 2012/2013

Yn y cynllun archwilio cyfnodol ar gyfer 2012/13, nodir y gwaith archwilio mewnol y bwriedir ei wneud yn 2012/13. Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr Asesiad Anghenion Archwilio diwygiedig ac ar yr anoddau sydd ar gael i'r Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod. Ymgynghorwyd hefyd gyda'r Rheolydd Sgriwtini, yr Archwilwyr Allanol a Swyddfa Archwilio Cymru wrth lunio'r cynllun i osgoi unrhyw ddyblygu o ran adnoddau archwilio.

Defnyddiwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor i nodi'r risgiau uchaf i'r Cyngor ac i flaenoriaethu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod. Bydd cyflawni'r Cynllun Gweithredol yn rhoi sicrwydd i uwch reolwyr ac Aelodau bod gweithdrefnau rheoli digonol wedi eu sefydlu o fewn y Cyngor i reoli'r risgiau hyn yn effeithiol.

Roedd dogfennau y trowyd atynt wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cynnwys, ond nid oeddynt wedi'u cyfyngu i: Datganiad Llywodraethu Corfforaethol CSYM 2010/11; Rhaglen Reoleiddiol ar gyfer Archwilio Perfformiad Ebrill 2011 i Fawrth 2012 - Adroddiad Cynnydd - Chwefror 2012; Archwiliad PWC o'r Datganiadau Cyfrifo; Amlinelliad Archwilio Ariannol Blynyddol PWC; y Gofrestr Risg Gorfforaethol; y Cynllun Busnes Corfforaethol drafft ar gyfer 2012/15; Blaenoriaethau Strategol CSYM; ac ymgynghori gydag Archwilwyr Allanol ar ein cynlluniau gwaith ar gyfer 2012/13.

**GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu / Cyfeirnod Risg | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Fframwaith Rheoli Risg | Risg YM3 | Yn seiliedig ar risg |
| Parhad Busnes Corfforaethol a Chynllun Adfer TGCh Ôl-drychineb | Risg YM3 | Yn seiliedig ar risg |
| Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Data | Asesiad Risg AM | Yn seiliedig ar risg |
| Capasiti a Materion Staffio | Risg YM9 | Yn seiliedig ar risg |
| Partneriaethau a Chontractwyr – Trefniadau wrth gefn | Risg YM12 | Yn seiliedig ar risg |
| Trefniadau ar gyfer Ymgynghori gyda Chydranddeiliaid / Cwsmeriaid | Risg YM13 | Yn seiliedig ar risg |
| Systemau Adnoddau Dynol - Hunanwasanaeth a'r Gyflogres | System Newydd | Yn seiliedig ar risg |
| Y Polisi Teithio a Chynhaliaeth | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth |
| Pwrcasu Corfforaethol - Polisïau a Phrosesau gan gynnwys trefniadau cydweithredol. | Asesiad Risg AM | Yn seiliedig ar risg |
| Lwfansau Aelodau - | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth |

## YR UNED BOLISI

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Adolygiad Iechyd Corfforaethol gan gynnwys Salwch a Chwynion | Cylchol AM | Yn seiliedig ar risg |
| Rheoli Perfformiad | Risg YM8 | Yn seiliedig ar risg |
| Cytundebau Canlyniadau | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth |
| Cydymffurfiaeth Gorfforaethol - Deddfwriaeth; Polisi a Gweithdrefnau | Risg YM10 | Yn seiliedig ar risg |
| Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Asesiadau o'r effaith ar Breifatrwydd | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth |

## GWASANAETHAU TAI

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Rhenti Tai – gan gynnwys Gosod Tai | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Digartrefedd | Cylchol AM | Yn seiliedig ar risg |
| Grantiau Tai | Cylchol AM | Yn seiliedig ar risg |
| Pwrcasu yn yr Uned Cynnal Adeiladau – gan gynnwys sgipiau / tanwydd / masnachau ac ati | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth - GAM |

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Pryd ar Glud | Asesiad Risg AM | System |
| Taliadau Uniongyrchol i Gleientiaid | Asesiad Risg AM | System |
| Gwasanaethau Plant – Asesu a Monitro | Risg YM16 | Yn seiliedig ar risg |
| Pwrcasu – Darparwyr gan gynnwys Tyddyn Môn – Dewis Defnyddwyr | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth – GAM |
| Polisi Codi Tâl – Gwasanaethau yn y Gymuned (ch.3) | Cais gan y Gwasanaeth | System |
| Apwynteion / Dirprwyon (ch.4) | Cais gan y Gwasanaeth | System |

## GWASANAETH CYLLID

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Casglu Arian | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Dyledwyr Amrywiol | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Taliadau i Gredydwyr | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Lejer Ariannol a Chysoni Banc | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Talu rheini nad ydynt yn gweithio i'r Cyngor | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth |
| Budd-daliadau Tai | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Rheoli'r Trysorlys | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Y Dreth Gyngor | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Y Gyflogres a Goramser | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Gosod a Monitro'r Gyllideb | Asesiad Risg AM | System |
| Cyflogau Athrawon | Asesiad Risg AM | System |

## GWASANAETHAU TGCh

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Gwiriad Iechyd TGCh | Asesiad Risg AM | Ymgynghorol |
| Defnydd o'r rhyngrwyd gan gynnwys defnydd o Ffonau Symudol | Asesiad Risg AM | Yn seiliedig ar risg |

## PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Ffioedd Meysydd Parcio a Rhybuddion Ffioedd Ychwanegol – Cydweithredol | Cydweithredol | Rheolaethau Allweddol |
| Incwm Meysydd Parcio | Asesiad Risg AM | Yn seiliedig ar risg |
| Arforol gan gynnwys Angorfeydd | Cais gan y Gwasanaeth | System |
| Trafnidiaeth Cyhoeddus | Asesiad Risg AM | System |
| Targedau Masnachu Carbon | Risg YM6 | Yn seiliedig ar risg |
| Targedau Rheoli Gwastraff | Risg YM6 | Yn seiliedig ar risg |
| Trefniadau Rheoli'r Fflyd | Asesiad Risg AM | Yn seiliedig ar risg |

## GWASANAETHAU CYNLLUNIO

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Cynllun Grant Eiddo ac Amgylchedd (PEG) | Asesiad Risg AM | System |

## DATBLYGU ECONOMAIDD

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Rhaglen Ynys Ynni (yn cynnwys Swyddfa Rheoli Project) | System Newydd | System |

## DYSGU GYDOL OES

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Archifau – Systemau newydd | Asesiad Risg AM | System |

## HAMDDEN A'R GYMUNED

| Maes Archwiliadwy | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Canolfan Hamdden Biwmares | Asesiad Risg AM | Sefydliad |
| Canolfan Hamdden David Hughes | Asesiad Risg AM | Sefydliad |

## ADDYSG

| Maes Archwiliadau | Ffynhonnell Adolygu | Math o Adolygiad |
|---|---|---|
| Ysgol gynradd 1 | Cylchol AM | Ysgol |
| Ysgol gynradd 2 | Cylchol AM | Ysgol |
| Ysgol gynradd 3 | Cylchol AM | Ysgol |
| Ysgol gynradd 4 | Cylchol AM | Ysgol |
| Ysgol gynradd 5 | Cylchol AM | Ysgol |
| Ysgol gynradd 6 | Cylchol AM | Ysgol |
| Ysgol uwchradd 1 | Cylchol AM | Ysgol |
| Ysgolion – dilyn i fyny ar COCH / COCH AMBR | Cylchol AM | Ysgol |

| | | |
|---|---|---|
| Grant LlC – Ysgolion Bro | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Cynllun Brecwast am Ddim – LlC | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Adolygiad Thematig o Ysgolion – Cydweithredol – Arferion Gorau | Cylchol AM | System |
| Prydau Ysgol am Ddim | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Grantiau Dillad LlC | Cylchol AM | Rheolaethau Allweddol |
| Ffioedd Allsirol | Cylchol AM | System |

**Nifer y Dyddiau Archwilio 800**

| **Gwaith heb ei Raglennu** |
|---|
| Ymchwiliadau / Cyfeiriadau |
| Gwaith wrth gefn dan Adran 151 |
| Cyngor ar Systemau Rheoli |
| Dilyn i fyny - Gwirio Hunanasesiadau 4Action |
| Cyfatebiaeth gyda'r Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol |
| **Cyfanswm y dyddiau sydd heb eu rhaglennu - 155** |

**ATODIAD B**

## Adnoddau

### 1 Asesu Lefel yr Adnoddau Angenrheidiol

Rydym wedi defnyddio'n profiad proffesiynol i asesu pa lefel o adnoddau sy'n angenrheidiol i'r gwaith archwilio a nodwyd yn y cylch strategol. Mae lefel yr adnoddau'n dibynnu ar:

- Cymhlethdod y system sy'n ei lle;
- Ffactorau megis nifer y lleoliadau, nifer y trafodion neu amledd y trafodion;
- Y sicrwydd y mae modd ei ddwyn ymlaen o waith archwilio'r flwyddyn cynt;
- Y math o waith archwilio a wneir.

### 2 Yr Adnoddau sydd ar gael yn yr Adain Archwilio Mewnol

Mae'r adnoddau sydd ar gael yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2012-13 fel a ganlyn:

| **Tîm Llawn** | | |
|---|---|---|
| Rheolwr Archwilio | (RhA) | 144 diwrnod |
| Uchel Archwiliwr Mewnol | (UAM) | 260 diwrnod |
| Archwilwyr Mewnol x 2 | (AM) | 520 diwrnod |
| Archwilwyr x 2 | (A) | 520 diwrnod |
| | **Cyfanswm:** | **1444** |

Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr adnoddau uchod sydd ar gael yn 2012-13 ond rhaid tynnu'r dyddiadau hynny nad oes modd codi amdanynt a manylir ar y rheiny isod. Y dyddiadau nad oes modd codi amdanynt yw'r dyddiau hynny pryd y mae gofyn i archwilwyr weithio ar ddyletswyddau gweinyddol sy'n angenrheidiol i redeg yr Adain ond dyddiau sydd ddim â chyswllt uniongyrchol ag Arolygon Archwilio. Mae cyfanswm y dyddiau Archwilio Mewnol sydd ar gael i wneud gwaith archwilio mewnol rhaglenedig yn 2012-13 felly yn 955 o ddyddiadau wedi ei weithio allan fel a ganlyn:

| | **2012-13** |
|---|---|
| **Cyfanswm y Dyddiau sydd ar gael** | **1444** |
| **Llai dyddiau nad oes modd codi amdanynt** | |
| Absenoldeb Statudol | 60 |
| Gwyliau Blynyddol | 128 |
| Absenoldeb Salwch | 50 |
| Hyfforddiant Arall | 25 |
| Gweinyddu Gwaith Archwilio | 100 |
| Cynllunio Gwaith Archwilio | 15 |
| Rhyddhau Sieciau | 35 |
| Pwyllgor Archwilio | 20 |
| Cyfarfodydd gyda PWC | 5 |
| Hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Archwilio | 36 |
| Cydweithio | 15 |
| **Llai cyfanswm y dyddiau nad oes modd codi amdanynt** | **489** |
| **Cyfanswm** | **955** |

## 3 Adnoddau a Neilltuwyd i Adrannau

Manylir isod ar y ganran o ddyddiau archwilio a glustnodwyd i bob Adran yn ôl Cynllun Gweithredu 2012-13. Mae'r cynllun yn nhrefn blaenoriaeth yn adlewyrchu'r meysydd risg uchel corfforaethol cyfredol a adnabuwyd yn ein proses asesu risg. O'r herwydd, bydd y ganran uchaf o ddiwrnodau yn 2012/13 yn cael eu treulio ar adolygiadau yn yr Adrannau Corfforaethol a Chyllid.

| Maes gwaith | Dyddiad | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Corfforaethol / Polisi | 220 | 23.04% |
| Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth | 215 | 22.51% |
| Addysg a Hamdden | 130 | 13.62% |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 145 | 15.18% |
| Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | 90 | 9.42% |
| Gwaith heb ei raglennu | 155 | 16.23% |
| **CYFANSWM** | **955** | **100%** |

## 4 Darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Dylai'r aelodau fod yn ymwybodol fod proses gydweithio ar y gweill i benderfynu sut y gall y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru weithio'n agosach i ddarparu Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Mae Partneriaeth Archwilio ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi ei sefydlu sy'n cynnwys y chwe Awdurdod yn y Gogledd a phedwar o sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Y nod yw sicrhau y gall sefydliadau partner weithio'n agosach gyda'i gilydd er mwyn gwella effeithlonrwydd.

Gall canlyniad y broses hon effeithio'r modd y caiff Gwasanaethau Archwilio Mewnol eu darparu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod cyfnod y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol hwn ar gyfer 2012/13.

**ATODIAD C**

## Cyngor Sir Ynys Môn

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL 2012 - 2013 i 2014/15 FEL YR OEDD YN EBRILL 2012

| Maes Archwilio | Categori Risg | Gwirioneddol 2012/13 | Cynlluniedig 2013/14 | Cynlluniedig 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| **Yn ychwanegol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol** | | | | |
| Cofrestr Risg 1 – 12/13 – Capasiti a materion staffio | U | X | X | X |
| Cofrestr Risg 2 – 12/13 – Partneriaethau a Chontractwyr – Trefniadau wrth gefn | U | X | X | X |
| Cofrestr Risg 3 – 12/13 – Ymgynghori gyda Chwsmeriaid / Cydranddeiliaid – Trefniadau | U | X | X | X |
| Cofrestr Risg 4 – 12/13 – Cydymffurfiaeth Gorfforaethol – Deddfwriaeth; Polisi a Gweithdrefnau | U | X | X | X |
| **IS-GYFANSWM** | | **4** | **4** | **4** |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Adnoddau Dynol Hunanwasanaeth | C | X | | |
| Polisi Teithio a Chynhaliaeth | C | X | | |
| System Oriau Gweithio Hyblyg | I | | | X |
| Trefniadau Rheoli Asesau | U | | X | |
| Teleffonau a Ffonau Symudol – Contractau | C | | | X |
| Postio – GAA | C | | | X |
| Rheoli Perfformiad – | U | X | | |
| Cytundebau Canlyniad | U | X | X | X |
| Fframwaith Llywodraethu | U | X | X | X |
| Cantîn | I | | | X |
| Benthyciadau Car | I | | | X |
| Lwfansau Aelodau | I | X | | |
| Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Data | C | X | | |
| Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd | C | X | | |
| Llungopïo – GAA | I | | X | |
| Lwfansau Hyfforddi | I | | | X |
| Rheoli'r Fflyd | C | X | | |
| Rhestrau Eiddo | C | | X | |
| Parhad Busnes – Dilyn i fyny | U | X | | |
| Tracio Argymhellion – Adolygiad Gwirio Hunanasesiadau AM | C | **Mynd yn ei flaen** | **Mynd yn ei flaen** | **Mynd yn ei flaen** |
| Tracio Argymhellion – nid rhai AM | C | | | X |
| Adolygiad Iechyd Corfforaethol yn cynnwys salwch a chwynion | U | X | | |
| Prosesau Cynllunio Busnes | C | | | X |
| Rheoli a Storio Cofnodiadau | C | | | X |
| Fframwaith Diogelu Recriwtio | U | | X | |

| Maes Archwilio | Categori Risg | Gwirioneddol 2012/13 | Cynlluniedig 2013/14 | Cynlluniedig 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| Ynni GAM | C | | X | |
| Menter Twyll Genedlaethol | C | | | X |
| Dynladdiad Corfforaethol – Rheoli'r Fflyd+ | U | | X | |
| Diogelwch Cymunedol | C | | X | |
| Gofal Môn | I | | | X |
| Cofrestr Etholiadol | I | | X | |
| *Gwasanaethau Cyfreithiol* | | | | |
| Y broses Gwynion | U | **Gweler uchod** | | |
| **IS-GYFANSWM** | | **11** | **11** | **14** |

| **CYLLID & THECHNOLEG GWYBODAETH** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Cyllid* | | | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | U | X | X | X |
| Budd-daliadau Tai | U | X | X | X |
| Y Dreth Gyngor | U | X | X | X |
| Y Gyflogres | U | X | X | X |
| Mân ddyledwyr | U | X | X | X |
| Credydwyr | U | X | X | X |
| Ledjer Ariannol a Chysoni Banciau | U | X | X | X |
| Rheoli Trysorlys | U | X | X | X |
| Cyfrifon Imprest a Chysoni | I | | X | |
| Casglu Arian | I | X | X | X |
| Pennu'r Gyllideb a Monitro | U | X | X | X |
| TAW | C | | X | |
| Cardiau Pwrcasu Corfforaethol | C | | | X |
| Talu i'r rheini nad ydynt yn gweithio i'r Cyngor | C | X | | |
| Trefniadau Pwrcasu, Cydymffurfiaeth ac E-dendro | U | X | | |
| *Technoleg Gwybodaeth* | | | | |
| Gwiriad Iechyd TGCh | C | X | | |
| Mynediad i'r Rhyngrwyd / Defnydd o'r Rhyngrwyd | C | X | | |
| Strategaeth TGCh | C | | X | |
| Rhwydweithiau | C | | | X |
| **IS-GYFANSWM** | | **14** | **13** | **12** |

| **ADDYSG A HAMDDEN** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth* | | | | |
| Oriel | I | | | X |
| Uned Llyfryddol | I | | X | |
| Archifau | I | X | | |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | C | | | X |
| Datblygu Chwaraeon | U | | X | |
| Canolfan Hamdden Amlwch | I | | | X |
| Canolfan Hamdden Biwmares | C | X | | |
| Canolfan Hamdden David Hughes | C | X | | |
| **IS-GYFANSWM** | | **3** | **2** | **3** |

| Maes Archwilio | Categori Risg | Gwirioneddol 2012/13 | Cynlluniedig 2013/14 | Cynlluniedig 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| *Addysg* | | | | |
| Ysgol Bodedern | I | | | |
| Ysgol Bodffordd | I | | | |
| Ysgol Llanbedrgoch | I | | | |
| Ysgol Rhosneigr | C | | | |
| Ysgol Goronwy Owen | I | | | |
| Ysgol y Tywyn | I | | | |
| Ysgol y Morswyn | I | | | |
| Ysgol Pencarnisog | I | | | |
| Ysgol David Hughes | I | | | |
| Ysgol Y Bont | I | | | |
| Ysgol Bryngwran | I | | | |
| Ysgol Llanfechell | I | | | |
| Ysgol Llanfairpwll | I | | | |
| Ysgol Kingsland | I | | | |
| Ysgol Llanfawr | I | | | |
| Ysgol Biwmares | I | | | |
| Ysgol Dwyran | I | | | |
| Ysgol Esceifiog | I | | | |
| Ysgol Gyfun Llangefni | C | | | |
| Ysgol Llannerchymedd | I | | | |
| Ysgol Llanfachraeth | I | | | |
| Ysgol Llangristiolus | I | | | |
| Ysgol Moelfre | I | | | |
| Ysgol Niwbwrch | I | | | |
| Ysgol Frwd Win | I | | | |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | I | | | |
| Ysgol Syr Thomas Jones | I | | | |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | I | | | |
| **IS-GYFANSWM** | | **7** | **8** | **8** |
| | | | | |
| Dilyn i Fyny – Ysgolion (Coch neu Coch Amber yn y flwyddyn flaenorol) | C | **X** | **X** | **X** |
| Grantiau Dillad LlC | I | **X** | | |
| Incwm Prydau Ysgol | U | | **X** | |
| Cinio am Ddim | U | **X** | | |
| Adolygiad Thematig o'r Ysgolion | I | **X** | **X** | **X** |
| LlC – Brecwast am Ddim | I | **X** | **X** | **X** |
| Grant LlC – Ysgolion Bro | I | **X** | **X** | **X** |
| Grant Chweched Dosbarth – PLASC – Rhwydwaith Dysgu | I | **Yn yr ysgolion** | **Yn yr ysgolion** | **Yn yr ysgolion** |
| Incwm Cludiant Ysgol | I | | | **X** |
| Clandro Fformiwla – Cyllidebau Ysgolion | I | | | **X** |
| Integreiddio | C | | **X** | |
| Ffioedd Myfyrwyr | I | | | **X** |
| Ffioedd Allsirol | I | **X** | | |
| Cyflogau Athrawon | C | **X** | | |
| **IS-GYFANSWM** | | **8** | **6** | **7** |

| Maes Archwilio | Categori Risg | Gwirioneddol 2012/13 | Cynlluniedig 2013/14 | Cynlluniedig 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| **TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | |
| *Tai* | | | | |
| Digartrefedd | U | X | | |
| Grantiau Tai | C | X | | |
| Cymunedau'n Gyntaf | C | | X | |
| Pwrcasu yn yr Uned Cynnal Adeiladau | C | X | | |
| Rheoli Asbestos | U | | X | |
| Costio Gwaith - UCA | U | | | X |
| Rhenti Tai | C | X | X | X |
| *Gwasanaethau Cymdeithasol* | | | | |
| Gwasanaethau Plant – Asesu a Monitro | U | X | | |
| Canolfan Ddydd Biwmares | C | | | X |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Pwrcasu | C | X | | |
| Canolfan Byron | I | | X | |
| Cartref Henoed Plas Penlan | I | | X | |
| Pryd ar Glud | U | X | | |
| Cyfrifon Dros Dro a Chronfeydd Rhoddion | C | | X | |
| Taliadau Uniongyrchol i Gleientiaid | I | X | | |
| Byw Cymunedol - Ucheldre | C | | X | |
| Cartref Henoed Plas Crigyll | I | | | X |
| Polisi Codi Tâl – Gwasanaethau yn y Gymuned (ch.3) | C | X | | |
| Apwynteion / Dirprwyon (ch.4) | C | X | | |
| Cartref Henoed Garreglwyd | I | | | X |
| Gofal Dydd Hafan | I | | | X |
| **IS-GYFANSWM** | | **10** | **7** | **6** |

| Maes Archwilio | Categori Risg | Gwirioneddol 2012/13 | Cynlluniedig 2013/14 | Cynlluniedig 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| **YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TECHNEGOL** | | | | |
| Contractau Gwastraff | C | | | X |
| Ffioedd Meysydd Parcio a Thocynnau Cosb | C | X | | |
| Incwm Meysydd Parcio | I | X | | |
| Arforol | C | X | | |
| Rhenti Unedau Diwydiannol | I | | | X |
| Masnachu Carbon | U | X | | |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | I | X | | |
| Targedau Rheoli Gwastraff | C | X | | |
| Gwaith Priffyrdd y codir amdano | C | | | X |
| Cynnal a Chadw Tiroedd | I | | X | |
| Ffioedd a Phrisiau Priffyrdd | C | | X | |
| Marchnadoedd | C | | X | |
| Contract Cyfnodol - Palmantau | C | | X | |
| Rhenti Mân-ddaliadau | C | | | X |
| Grantiau Datblygu Economaidd | C | | | X |
| Grant Eiddo ac Amgylchedd (PEG) | C | X | | |

| Maes Archwilio | Categori Risg | Gwirioneddol 2012/13 | Cynlluniedig 2013/14 | Cynlluniedig 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Ynys Ynni | C | X | | |
| **IS-GYFANSWM** | | **8** | **4** | **5** |

| **MEYSYDD ERAILL** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaethau ar gyfer archwiliadau arbennig | | X | X | X |
| Darpariaeth ar gyfer ceisiadau ad-hoc gan y Swyddog Adran 151 | | X | X | X |
| Darpariaeth ar gyfer Cyngor Cyffredinol I Wasanaethau | | X | X | X |
| Gwaith Dilyn i fyny | | X | X | X |
| Wrth gefn | | X | X | X |
| **IS-GYFANSWM** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **TOTAL FOR YEAR** | | **65** | **55** | **59** |

| | |
|---|---|
| | **ON – Chwe Ysgol Gynradd dros y flwyddyn ar sail risg a phum Ysgol Uwchradd dros gyfnod o dair blynedd.** |